Mudiad Meithrin yw'r prif ddarparwr gofal ac addysg i'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng Cymraeg yn y trydydd sector, drwy rwydwaith genedlaethol o gylchoedd meithrin, cylchoedd Ti a Fi, gofal cofleidiol a meithrinfeydd dydd cyfrwng Cymraeg.

Sefydlwyd Mudiad Meithrin ym 1971. Ein prif nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.  Credwn hefyd ei bod yn bwysig sicrhau cyfle i bob plentyn elwa o brofiadau a gweithgareddau blynyddoedd cynnar yn ei gymuned leol.

Pan gychwynnodd Mudiad ym 1971 roedd ganddo oddeutu 50 cylch. Erbyn hyn, wedi tyfu'n aruthrol, mae tua 1000 o Gylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi, grwpiau 'Cymraeg i Blant' a meithrinfeydd dan faner Mudiad Meithrin. Mae'r rhain yn darparu profiadau blynyddoedd cynnar i oddeutu 22,000 o blant bob wythnos. Yn ogystal, mae'r Mudiad yn gweithio yn agos iawn gyda rhieni er mwyn darparu cymorth a chyngor i'w galluogi i ddatblygu a chefnogi gwaith y cylchoedd yn y cartref.

O ganlyniad, rydym yn gweithio gyda phlant a theuluoedd o amryw o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd. Rydym yn cydweithio gyda'r asiantaeth *Dechrau'n Deg* i ddarparu cyfleoedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, a gyda'r awdurdodau addysg leol i gynnig llefydd addysg rhan amser i blant 3 oed yn eu cymuned leol.

Yn ogystal, mae'r is-gwmni Cam wrth Gam, yn darparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i ennill cymwysterau blynyddoedd cynnar trwy'n cynllun hyfforddiant cenedlaethol.  Gwneir hyn trwy gyd-weithio ag ysgolion uwchradd i ddarparu cyrsiau i ddisgyblion ysgol, a thrwy'r cynlluniau hyfforddi cenedlaethol.  Darperir cyrsiau hyfforddi yn seiliedig ar ddysgu yn y gweithle gan rwydwaith o diwtoriaid, aseswyr a dilyswyr mewnol ledled Cymru.

Er mwyn cyflawni hyn, mae Mudiad Meithrin yn elusen gofrestredig sy'n cyflogi dros 200 o bobl, yn staff cenedlaethol a sirol ac mewn meithrinfeydd dydd, gyda 2000 o staff ychwanegol yn gweithio yn y cylchoedd ei hunain.

Cefnogir y cylchoedd gan rwydwaith cenedlaethol o staff proffesiynol sy'n eu cynghori ar amrediad o faterion er enghraifft hybu ymarfer da, hyfforddiant staff a chyswllt ag awdurdodau Lleol.  Yn ogystal, mae'r Mudiad yn gweithio yn agos iawn gyda rhieni er mwyn darparu cymorth a chyngor i'w galluogi i ddatblygu a chefnogi gwaith y cylchoedd yn y cartref.

Fel mudiad gwirfoddol mae Mudiad Meithrin yn wynebu ac yn delio gyda nifer o'r materion sydd eisoes wedi eu nodi gan fudiadau eraill y trydydd sector.  Lleisiwyd y rhain gan eraill trwy gydol y broses ymgynghorol y mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi ymgymryd ag ef hyd yma.

Gan gydnabod hyn mi fydd y negeseuon hyn yn gyfarwydd i'r pwyllgor ac yn ategu a chefnogi nifer o'r pryderon ac ystyriaethau a nodwyd mewn adroddiadau amrywiol eisoes.

Rydym wedi elwa yn sylweddol yn y gorffennol o fuddsoddiad ariannol a fu yn rhan ganolog o ddatblygu Mudiad Meithrin i'r hyn yr ydyw heddiw. Dros y bum mlynedd ar hugain ddiwethaf derbyniodd Mudiad Meithrin arian cyfalaf i gyfrannu at y gost o agor 2 ganolfan plant integredig. Rydym wedi hyfforddi cannoedd o fyfyrwyr i gyflawni cyrsiau galwedigaethol gofal plant gyda chymorth grantiau Ewropeaidd. Rydym hefyd wedi adeiladu pontydd gyda chydweithwyr ar draws Ewrop sydd yn gweithio yn y maes o hybu defnydd ieithoedd lleiafrifol yn y maes blynyddoedd cynnar.

## Sicrhau bod y materion sydd bwysicaf i Gymru yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y trafodaethau

O safbwynt man cychwyn eich ymchwiliad rhannwn bryder ynglŷn â chasgliadau adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (MSDY) yn Mis Mehefin 2017 am y Papur Gwyn: Bil Diddymu Mawr: Golygiadau i Gymru. Cytunwn fod y diffyg ymgynghoriad sydd wedi bod ar ran llywodraeth y DU gyda Chymru yn annerbyniol. Croeswn safbwyntiau cryf Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ar y mater hwn a'u hymdrechion i orfodi ystyriaeth lawn i ddirprwyo pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth Gymreig yn sgil y Bil Diddymu Mawr. Ceir dadansoddiad ac awgrymiadau manwl yn adroddiad Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Llywodraethant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd[1] . Byddai gweithredu'r argymhellion hyn yn rhoi seilwaith cadarn i berthynas Llywodraethau'r DU wrth ymgymryd â threfniadaeth gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Ein nod fel Mudiad yw ceisio sicrhau fod pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle i ddysgu'r Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Felly i ni, mae'n bwysig fod yr iaith yn cael sylw teilwng ac yn cael ei gynrychioli fel un o'r materion pwysicaf i Gymru yn ystod trafodaethau gadael yr UE. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi lleisio gofidion y gallai gadael yr Undeb Ewropeaidd:

- *danseilio darpariaeth rhaglenni a phrosiectau yng Nghymru sy'n allweddol er mwyn creu gweithlu medrus dwyieithog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned a'r byd busnes;*
- *ac effeithio ar sectorau economi sy'n bwysig i siaradwyr y Gymraeg ac sy'n cynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith i raddau helaeth*[2]

---

[1] http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11405/cr-ld11405-w.pdf

[2] http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20171102%20DG%20C%20Ymchwliad%20Brexit.pdf

Cytunwn gyda dadansoddiad Comisiynydd y Gymraeg

'*wrth i'r broses o ymadael â'r UE fynd ...... ei bod yn hanfodol fod ei effaith ar y Gymraeg yn derbyn sylw priodol ym mhob agwedd o waith y Llywodraeth. Yn hynny o beth, ....... dylid adnabod hyd a lled effaith economaidd Brexit ar y Gymraeg mewn cysylltiad â sectorau economi eraill, megis sector diwydiannau creadigol ac addysg ôl - 16, yn ogystal â rhaglenni a phrosiectau penodol sydd â photensial i blethu buddion economaidd ac ieithyddol. Yn dilyn hynny, mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn cynllunio ar frys er mwyn lliniaru'r effeithiau niweidiol ar y Gymraeg a'i defnyddwyr'*[3].

## Nodi cyfleoedd i barhau i ymgysylltu â'r Undeb Ewropeaidd a'i sefydliadau ar ôl gadael yr Undeb.

Gan ystyried cynnwys adroddiad y Pwyllgor MADY 'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit' hoffai Mudiad Meithrin gynnig y sylwadau canlynol:

Cytunwn yn gryf gydag Argymhelliad 4 y dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad clir a hygyrch i fusnesau, sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector ar yr hyn y gallai goblygiadau gwahanol sefyllfaoedd gadael yr UE, gan gynnwys sefyllfa "dim bargen" ei olygu i'r sefydliadau hyn. Bydd angen amser ar fudiadau a chyrff i gynllunio ag asesu risgiau i'w gwaith a'u gwasanaethau. Cytunwn gyda barn y pwyllgor hefyd nad oes gan wasanaethau cyhoeddus a mudiadau'r trydydd sector wybodaeth sydd ei angen arnom i baratoi'n ddigonol ar gyfer gadael yr UE.

Rydym hefyd am gefnogi sylwadau a wnaed gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru [4] ac a nodwyd yn rannol yn yr adroddiad 'Sut mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit' ynglŷn a sefyllfa hawliau plant a hawliau dynol. Fel mudiad sydd yn credu ac yn gweithredu hawliau plant mae'n ofid i nodi'r cynnydd a fu mewn agweddau zenoffobaidd sydd wedi arwain at ddirywiad cymdeithasol mewn agweddau sy'n parchu cydraddoldeb a dealltwriaeth ymysg pobloedd o wahanol gefndiroedd. Croesawn y ffaith fod hyn yn destun archwiliadau gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Senedd.

Cytunwn gyda'r Pwyllgor hefyd wrth adael yr UE ni ddylai fod dim gwanhau ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb a gwarchodaeth ym maes cyflogaeth. Mae hyn yn hynod o bwysig i Mudiad Meithrin fel mudiad ble mae 90% o'n cyflogai yn fenywaidd.

Rydym eisoes wedi cyfeirio at y traws rannu syniadau a phrofiadau sydd wedi digwydd yn hanesyddol rhyngddom ni yng Nghymru a'n chwaer wledydd ar draws Ewrop. O ganlyniad i'r Undeb Ewropaidd fe ffynnodd rhwydweithiau a phrosiectau trawsgwladol a roddodd gyfle i rannu arfer dda a blaengaredd. Braf

---

[3] Ibid
[4] https://www.wcva.org.uk/media/5336460/eng_final_tspc_notes_13.02.17.docx

iawn fyddai gweld buddsoddiad yn parhau yn y dyfodol i rannu arfer dda a magu perthynas gyda mudiadau a chyrff ar draws Ewrop er mwyn dysgu wrth ein gilydd. Mae'r rhestr o brosiectau a hwylusodd hyn yn rhy faith i'w henwi yma. Fel gwlad sydd yn hybu tŵf iaith leiafrifol mae'n holl bwysig in bod yn parhau i ddysgu a rhannu arbenigedd gwledydd eraill ar draws Ewrop sydd yn ceisio adfer a hybu ieithoedd lleiafrifol eraill.